

Canllaw Ysgrifennu Adolygiad

Pwrpas ‘Adolygiad’ yw dweud beth yw eich barn chi am yr hyn yr ydych yn ei adolygu. Fel darllenydd, pan yn darllen adolygiad rydym yn ceisio penderfynu os yw’r testun yn mynd i fod yn rhywbeth y byddem ni’n ei fwynhau ai peidio... hyd yn oed os yw’r adolygiad yn un negyddol!

Felly, dilynwch y pwyntiau bwled yma i gynllunio eich adolygiad:

Cynnwys:

- Cyflwynwch eich testun gan gynnwys enw’r gân a’r grŵp ac unrhyw wybodaeth ddiddorol amdanynt.
- Pa fath o gerddoriaeth? Tebyg i beth?
- Sut mae’r gân yn gwneud i chi deimlo?
- Ydych chi wedi clywed rhywbeth tebyg o’r blaen?
- Ydych chi’n debygol o wrando ar y gân yma eto?
- Ydych chi’n debygol o wrando ar ganeuon eraill gan y band?
- Cofiwch roi rhesymau wrth ateb y cwestiynau.

Iaith:

- Byddwch yn ysgrifennu yn y person cyntaf, e.e. “Rydw i wrth fy modd...” “Rwy’n teimlo...” “Mae’n gas gen i...”
- Defnyddiwch ansoddeiriau.
- Peidiwch ag ysgrifennu brawddegau hir a chymhleth.
- Byddwch yn bendant o’ch barn er mwyn cael diweddglo cryf.